# Agenda - Y Cyfarfod Llawn

Lleoliad y cyfarfod:

**Y Siambr - Y Senedd**

Dyddiad y cyfarfod:

Dydd Mawrth, 10 Mawrth 2020

Amser y cyfarfod: 13.00

## 266(v4)

---

## 1 Cwestiynau i'r Prif Weinidog

(45 munud)

Bydd y Llywydd yn galw ar Arweinwyr y Pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd i'r Prif Weinidog ar ôl Cwestiwn 2.

Gweld y Cwestiynau

## 2 Cwestiynau i'r Cwnsler Cyffredinol a'r Gweinidog Pontio Ewropeaidd (mewn perthynas â'i gyfrifoldebau fel swyddog cyfreithiol) - GOHIRIWYD I DDYDD MERCHER 11 MAWRTH

(0 munud)

## 3 Datganiad a Chyhoeddiad Busnes

(30 munud)

Gweld y Datganiad a Chyhoeddiad Busnes

## 4 Datganiad gan y Dirprwy Weinidog a'r Prif Chwip: Diwrnod Rhyngwladol y Menywod - I'W GYHOEDDI FEL DATGANIAD YSGRIFENEDIG

(0 munud)

## 5 Datganiad gan y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol: Gwybodaeth ddiweddaraf am Coronavirus (COVID-2019)

(45 munud)

## Cynnig o dan Reol Sefydlog 12.24 i gynnal dadl ar y ddwy eitem ganlynol gyda'i gilydd ond gyda phleidleisiau ar wahân (15 mins)

## 6 Rheoliadau Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016 a Gwasanaethau Rheoleiddiedig (Diwygiadau Amrywiol) 2020

**NDM7292** – Rebecca Evans (Gwyr)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru; yn unol â Rheol Sefydlog 27.5:

1. Yn cymeradwyo bod y fersiwn ddrafft o Reoliadau Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016 a Gwasanaethau Rheoleiddiedig (Diwygiadau Amrywiol) 2020 yn cael ei llunio yn unol â’r fersiwn ddrafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 11 Chwefror 2020.

**Dogfennau Ategol**

Memorandwm Esboniadol *(Saesneg yn unig)*

Adroddiad y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

## 7 Rheoliadau Gofal Cymdeithasol Cymru (Pennu Gweithwyr Gofal Cymdeithasol) (Cofrestru) (Diwygio) 2020

**NDM7293** – Rebecca Evans (Gwyr)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru; yn unol â Rheol Sefydlog 27.5:

1. Yn cymeradwyo bod y fersiwn ddrafft o Reoliadau Gofal Cymdeithasol Cymru (Pennu Gweithwyr Gofal Cymdeithasol) (Cofrestru) (Diwygio) 2020 yn cael ei llunio yn unol â’r fersiwn ddrafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 11 Chwefror 2020.

**Dogfennau Ategol**

Memorandwm Esboniadol *(Saesneg yn unig)*

Adroddiad y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

## 8 Dadl: Setliad yr Heddlu 2020-21

(30 munud)

**NDM7291** – Rebecca Evans (Gwyr)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol ag Adran 84H o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988, yn cymeradwyo Adroddiad Cyllid Llywodraeth Leol (Rhif 2) 2020-21 (Setliad Terfynol - Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu). Gosodwyd copi o'r adroddiad yn y Swyddfa Gyflwyno ar 23 Ionawr 2020.

## 9 Dadl: Maes Awyr Caerdydd

(60 munud)

**NDM7290** – Rebecca Evans (Gwyr)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn cydnabod pwysigrwydd economaidd a chymdeithasol Maes Awyr Rhyngwladol Caerdydd i Gymru.

2. Yn croesawu'r ffaith bod Maes Awyr Rhyngwladol Caerdydd bellach yn gyfrifol am weithredu cyfleuster terfynfa Maes Awyr Ynys Môn ac yn cydnabod y cyswllt awyr rhanbarthol pwysig rhwng gogledd a de Cymru.

3. Yn cydnabod bod dros 1700 o bobl yn cael eu cyflogi ym Maes Awyr Rhyngwladol Caerdydd a'r £250m o werth ychwanegol gros y mae'n ei gyfrannu at economi Cymru.

4. Yn cytuno ei bod yn allweddol cefnogi Maes Awyr Caerdydd er budd economi fasnach Cymru ar ôl Brexit, a hynny fel rhan o system trafnidiaeth gyhoeddus carbon isel, integredig ac o'r radd flaenaf yng Nghymru.

5. Yn nodi dull Llywodraeth y DU o ymyrryd er mwyn achub cwmni Flybe ond yn galw ar Lywodraeth y DU i fynd gam ymhellach er mwyn gwella cystadleurwydd, drwy gefnogi cost rheoleiddio ym meysydd awyr llai y DU, fel sy'n digwydd ar draws Ewrop.

6. Yn galw ar Lywodraeth newydd y DU i gytuno o'r diwedd i ddatganoli'n llawn y Doll Teithwyr Awyr i Gymru.

**Cyflwynwyd y gwelliannau a ganlyn:**

**Gwelliant 1** – Darren Millar (Gorllewin Clwyd)

Dileu popeth a rhoi yn ei le:

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn nodi'r newyddion bod Flybe wedi galw'r gweinyddwyr ac yn mynegi pryder ynghylch yr effaith andwyol bosibl a gaiff hyn ar ddyfodol Maes Awyr Caerdydd.

2. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i gyhoeddi strategaeth gynhwysfawr ar gyfer Maes Awyr Caerdydd gyda'r nod o'i dychwelyd i'r sector masnachol ar y cyfle cyntaf ac ar elw i drethdalwyr Cymru, ac y dylai'r strategaeth gynnwys cynlluniau i:

a) buddsoddi yn seilwaith cyfalaf y maes awyr er mwyn galluogi'r maes awyr i arallgyfeirio a chynhyrchu ffynonellau refeniw newydd;

b) cefnogi'r broses o ddatblygu llwybrau, gan flaenoriaethu cyswllt hedfan uniongyrchol ag UDA ac un i Fanceinion o ystyried ei statws fel prif ganolfan yng ngogledd Lloegr sy'n gwasanaethu gogledd Cymru;

c) datblygu strategaeth farchnata newydd ar gyfer y maes awyr;

d) gweithio gyda Llywodraeth y DU i ddatganoli a dileu'r doll teithwyr awyr;

e) gwella cysylltiadau trafnidiaeth i'r maes awyr er mwyn gwneud y maes awyr yn fwy hygyrch drwy fuddsoddi mewn cysylltiadau gwell o ran ffyrdd, rheilffyrdd a thrafnidiaeth gyhoeddus.

**Gwelliant 2** – Caroline Jones (Gorllewin De Cymru)

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig;

Yn edrych ar Faes Awyr Rhyngwladol Caerdydd i wneud elw blynyddol o leiaf ar y lefel weithredu, h.y. cyn costau cyllid.

**Gwelliant 3 –** Caroline Jones (Gorllewin De Cymru)

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn galw ar Lywodraeth Cymru i ganfod partner sector preifat i helpu i weithredu Maes Awyr Rhyngwladol Caerdydd a chymryd cyfran leiafrifol ynddo o fewn 5 mlynedd.

## 10 Cyfnod pleidleisio

## 11 Dadl: Cyfnod 3 y Bil Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Ansawdd ac Ymgysylltu) (Cymru)

(300 munud)

**Mae'r gwelliannau wedi cael eu grwpio at ddibenion y ddadl a byddant yn cael eu trafod fel a ganlyn:**

**1. Dyletswydd i sicrhau ansawdd mewn gwasanaethau iechyd – cynllunio'r gweithlu a lefelau staffio priodol**

21, 22, 23, 24, 25, 26, 27, 28, 29, 30, 31, 32, 33, 34

**2. Dyletswydd i sicrhau ansawdd mewn gwasanaethau iechyd – ystyr 'ansawdd'**

60, 61, 62, 63, 64, 65, 66, 67, 68, 69, 70, 71

**3. Dyletswydd i sicrhau ansawdd mewn gwasanaethau iechyd – pŵer i ddyroddi canllawiau**

16, 17, 18

**4. Dyletswydd i sicrhau ansawdd mewn gwasanaethau iechyd – diffyg cydymffurfio**

35

**5. Dyletswydd i sicrhau ansawdd mewn gwasanaethau iechyd – data**

38

**6. Dyletswydd i sicrhau ansawdd mewn gwasanaethau iechyd – cofrestr o reolwyr**

72

**7. Dyletswydd i sicrhau ansawdd mewn gwasanaethau iechyd – adolygu datganiad o safonau**

36, 37

**8. Dyletswydd gonestrwydd – diffyg cydymffurfio**

39, 73, 74

**9. Corff Llais y Dinesydd – aelodau**

5, 48, 6, 7, 8, 49, 9, 50, 51, 52, 10, 53, 11, 12, 54, 56, 14

**10. Corff Llais y Dinesydd – sicrwydd indemniad ar gyfer gwirfoddolwyr a staff**

55

**11. Corff Llais y Dinesydd – adnoddau**

57, 58

**12. Corff Llais y Dinesydd – archwilio**

13

**13. Corff Llais y Dinesydd – strwythurau ac ymgysylltu**

40, 19, 59, 75, 20

**14. Corff Llais y Dinesydd – sylwadau i gyrff cyhoeddus**

41, 76, 1, 42, 77

**15. Cwynion ar y Cyd**

43, 47

**16. Corff Llais y Dinesydd – dyletswydd i gyflenwi gwybodaeth**

2

**17. Corff Llais y Dinesydd – Mynediad i fangre**

3, 45

**18. Corff Llais y Dinesydd – dyletswydd i gydweithredu**

4, 46

**19. Corff Llais y Dinesydd – cymorth i wirfoddolwyr a staff**

44

**20. Corff Llais y Dinesydd – cymhwyso safonau'r Gymraeg**

15

**Dogfennau Ategol**

Bil Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Ansawdd ac Ymgysylltu) (Cymru)

Memorandwm Esboniadol

Rhestr o Welliannau wedi'u Didoli

Grwpio Gwelliannau

Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Cynulliad am 13.30, Dydd Mercher, 11 Mawrth 2020